OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 656

# Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mehefin 2018 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu benthyciadau at radd ddoethurol ôl-raddedig i fyfyrwyr mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018, pa un a yw unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.